NEWYDDION PLASMAWR

Chwefror 2012

DYDDIADAU PWYSIG

Chwefror 23: Noson cyflwyno cwricwlwm CA5 i rieni disgyblion Bl 11.
Mawrth 1: Gorymdaith Dydd Gwyl Dewi i ddisgyblion Bl 7 a 8.
Mawrth 8: Noson rieni Bl 7.
Mawrth 13—15: Olifyr.
Mawrth 16: Adroddiadau Bl 11 allan.
Mawrth 14—20: Ymwelwyr o Japan.
Mawrth 21: Noson i rieni Bl 11—paratoi am TGAU!
Mawrth 19—23: Profiad gwaith i Fl 10.
Mawrth 22: Noson rieni Blwyddyn 12.
Mawrth 30: Ffair Wyddoniaeth Blwyddyn 7.
Mawrth 30: Noson gomedi CRAP.
Ebrill 3—5: Alldaith ymarferol Dug Caeredin Aur.
Ebrill 4: Diwrnod olaf y tymor i ddisgyblion.
Ebrill 5: HMS i staff.

Ebrill 23: Diwrnod cyntaf tymor yr Haf.

Mae hwn yn hanner tymor prysur tu hwnt wrth i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 a 5 baratoi yn derfynol ar gyfer eu arholiadau allanol. Mae hi hefyd yn gyfnod prysur o baratoi ar gyfer ein cynhyrchiad—Olifyr. Nodwch y wybodaeth sy'n berthnasol i chi:

LLONGYFARCHIADAU

Cerddor Ifanc:
Llongyfarchiadau i Gwyn Robins (Bl 7) a enillodd tlws Cerddor Ifanc yr ysgol (CA3) am chwarae'r ffidl ac i Manon Browning am ennill tlws (CA4 a 5) am chwarae'r delyn. Roedd safon y gystadleuaeth yn ôl y beirniaid yn wych.

Patagonia:
Llongyfarchiadau i Catrin Cox, Catrin Williams, Anna Powys a Luned Phillips (Bl 12) am gael eu dewis i gynrychioli'r ysgol ar daith yr Urdd i Patagonia yn mis Hydref 2012. Pob dymuniad da iddynt wrth iddynt baratoi a chasglu arian ar gyfer y daith.

Olifyr:
Dewch i gefnogi ein cynhyrchaid o Olifyr fydd yn cael ei berfformio dros tair noson yn ystod mis Mawrth. Nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael felly 'y gyntaf i'r felin .....'

Dyddiadau Hyfforddiant Mewn Swydd:
Dyma'r dyddiadau HMS ar gyfer gweddill y flwyddyn. Fe fydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion ar y dyddiau hynny:

- Ebrill 5.
- Mehefin 29.
- Gorffennaf 20.

Holiadur ar-lein Menter Caerdydd:
Nodyn i'ch atgoffa mae dyddiad cau yr holiaduron ar-lein gan Menter Caerdydd am agweddau rhieni tuag at yr iaith Gymraeg yw Chwefror 24.

Newid i amserlen dysgu yr ysgol:
O fis Medi 2012 fe fydd amserlen dysgu'r ysgol yn newid i 6 gwers o 52 munud yr un ac fe fydd un cyfnod cinio i bawb. Ni fydd newid i amser cychwyn a cau yr ysgol.

C.R.A.P.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn hyd yn hyn. Y noson gwis ar ddiwedd lonawr oedd y digwyddiad mwyaf diweddar, diolch i aelodau'r pwyllgor a drefnodd y noson ac i Mr Tomos Rees am fod yn gwis feistr gwych.
Y mae'r ysgol wedi ymrwymo i wario arian y Gymdeithas ar sicrhau bod yr adnoddau gorau posib ar gael yn ein llyfrgell newydd.

Mawrth 30:
Noson Gomedi.
Dewch i fwynhau noson o hwyl a sbri ac adloniant ysgafn yn neuadd yr Ysgol. Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron, caiff manylion llawn am y noson eu dosbarthu yn ystod yr wythnosau nesaf.

SCHOOLCOMMS

Mae'r system 'schoolcomms' wedi gwella ein dull o gyfathrebu gyda'n rhieni. Mae'r system yn ein galluogi i gysylltu gyda rhieni naill ai drwy e-bost a/neu drwy neges destun. Os nad ydych wedi derbyn neges destun neu e-bost yn ddiweddar mae'n bosib nad yw eich rhif ffôn neu eich cyfeiriad e-bost yn gywir ar ein system ysgol. Cysylltwch gyda swyddfa'r ysgol os nad ydych yn derbyn ein negeseuon yn electroneg.

GWISG YSGOL

Mae safon y wisg ysgol wedi gwella yn ysod yr hanner tymor ddiwethaf a diolchir i rieni am gydweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio a rheolau gwisg yr ysgol.

OFFER DYSGU

Testun pryder diweddar yw'r nifer o ddisgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol yn ddyddiol heb offer angenrheidiol i ddysgu. Gofynnir i rieni sicrhau bod cas pensiliau llawn gyda'i plant.

NOSWEITHIAU RHIENI

Rydym yn falch iawn o'r gefnogaeth a gawn gan rieni ar nosweithiau rhieni, mae dros 90% o rieni ar gyfartaledd yn dod i bob noson rhieni. Er mwyn sicrhau nad yw'r ciwio i weld athro yn rhy hir, apeliwn i'r drafodaeth rhwng athro a rhiant bara am nid mwy na 5 munud. Os oes angen sgwrs hirach yna dylid trefnu apwyntiad pellach trwy'r Arweinydd Cynnydd priodol.

CYSYLLTU GYDA ATHRAWON

Apél diffuant i rieni gysylltu a aelod o'r Tim Arwain yn gyntaf os ydych am godi mater gyda athrawon unigol. Mae rhifau ffon aelodau'r Tim Arwain ar y daflen felen 'dyddiadau pwysig' a dosberthir ar ddechrau'r flwyddyn, neu ffoniwch y brif swyddfa (029 20 405499/8/7).

CINIO RHAD AC AM DDIM

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i dderbyn y budd-dal cinio rhad yna cysylltwch a'r ysgol am sgwrs. Mae cymorth ar gael yn yr ysgol i gwblhau'r ffuflen perthnasol.

Olifyr: Mawrth 13—15. Archebwch eich tocynnau trwy'r brif swyddfa.